

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft CCAUC

Mawrth 2020 – Ebrill 2024

DRAFT



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC): Datganiad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae CCAUC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfrifoldebau CCAUC o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynnwys ei rôl fel cyflogwr, yn ogystal â'i waith gyda sefydliadau addysg uwch fel y mae'n berthnasol i'w staff a'i fyfyrwyr. Mae CCAUC yn destun deddfwriaeth cydraddoldebau, ond nid yw'n rheoleiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch yng Nghymru. Rheolydd cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yw [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#) (EHRC Cymru). Fodd bynnag, mae gennym bwerau rheoleiddio mewn meysydd eraill, gan gynnwys o dan [Ddeddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#), ac rydym yn ystyried ein dyletswyddau cydraddoldeb wrth weinyddu ein pwerau rheoleiddio.

Er nad oes gennym bwerau i osod amcanion cydraddoldeb ar gyfer darparwyr AU unigol, rydym yn ystyried eu hamcanion a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar gydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb wrth osod, a gwneud cynnydd tuag at fodloni ein hamcanion cydraddoldeb. Nid oes gennym bwerau i osod amcanion ar gyfer darparwyr AU unigol.

Mae llawer o fuddion i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes addysg uwch a sicrhau dulliau gweithredu cynhwysol. Mae'r buddion hyn yn mynd y tu hwnt i addysg uwch a CCAUC, oherwydd maent yn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol, ymgysylltu dinesig a gwneud Cymru'n lle tecach i fyw, gweithio ac astudio ynddi. Mae gennym ymrwymiad hirdymor i hyrwyddo cyfle cyfartal a hybu arferion effeithiol a chynhwysol ym maes addysg uwch.

Mae gan ddarparwyr addysg uwch boblogaethau amrywiol o staff, ymgeiswyr a myfyrwyr. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw ac yn cydweithio â nhw, ac yn cynnwys eu staff a'u myfyrwyr, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Rydym yn hyrwyddo dulliau ataliol er mwyn cyflawni gwelliant parhaus ac rydym yn herio, gyda thystiolaeth a chyngor, er mwyn trechu anghyfartaledd sefydledig.

Fel cyflogwr, rydym yn ymwybodol o broffil cydraddoldeb ac amrywiaeth CCAUC ac yn ceisio ei wella. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn (y Cynllun) yn cyd-fynd â [gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd ein Strategaeth Gorfforol](#). Mae'r Cynllun, a'r cynllun cyflenwi y mae'n seiliedig arno a gaiff ei gyhoeddi ar wahân, yn nodi sut byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.

Rydym yn cydnabod manteision ymgysylltu ag amrediad eang o bobl wrth ddatblygu a gweithredu ein Cynllun. Mae'r Cynllun yn ddogfen sy'n datblygu'n barhaus, a byddwn yn ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Gweledigaeth strategol CCAUC:

Mae gweledigaeth strategol CCAUC fel y'i nodir yn ein Strategaeth Gorfforaethol fel a ganlyn:

Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch, ragorol ar lefel ryngwladol yng Nghymru

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth hon, ac mae ei bedwar amcan cydraddoldeb ac amrywiaeth lefel uchel yn cyd-fynd â themâu ein hamcan corfforaethol¹.

Mae ein pedwar amcan cydraddoldeb lefel uchel fel a ganlyn:

Rydym yn ariannu:

I sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb a allai gael budd ohoni a/neu weithio o'i mewn.

Rydym yn rheoleiddio:

I sicrhau cyfle cyfartal a deilliannau cyfartal ym maes addysg uwch.

Rydym yn cydweithio:

I weithio mewn partneriaeth i ddylanwadu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes addysg uwch a'u hyrwyddo.

Rydym yn gweithredu'n effeithiol:

I sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn fel sefydliad.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi ystyried nodau ac amcanion tymor byr a hirdymor Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar fabwysiadu dyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Er nad yw'r ddyletswydd hon wedi'i gosod ar CCAUC ac addysg uwch, byddwn yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol yn ein dulliau gweithio.

Rydym wedi ystyried goblygiadau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), y nodau llesiant, y ffyrdd o weithio a'r egwyddor datblygiad cynaliadwy.

Rydym wedi cyhoeddi [Datganiad Llesiant CCAUC](#), sydd wedi llywio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, a byddwn yn parhau i'w adolygu.

Rydym wedi cydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru² i sicrhau dull gweithredu integredig a chydlynol er mwyn mynd ati mewn modd cadarnhaol i herio a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sefydledig sy'n parhau i fodoli ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

¹ Cenhadaeth CCAUC yw: ariannu addysg uwch yng Nghymru; rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru; dylanwadu ar addysg uwch drwy gyngor seiliedig ar dystiolaeth a chydweithrediad cryf rhwng partneriaid; gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr; a gweithredu'n effeithiol fel sefydliad.

² Aelodaeth o'r Grŵp Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Rydym wedi nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu o dan bedwar amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i ymwreiddio ym mhopeth a wnawn.

DRAFT

Amcan 1:

Rydym yn ariannu: i sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb a allai gael budd ohoni a/neu weithio o'i mewn.

Blaenoriaethau tymor byr

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Adolygu ein methodoleg ariannu, gan gynnwys cyllid rhan-amser, gan ystyried myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, yn ogystal â chyllid sy'n seiliedig ar dderbyn lwfansau myfyrwyr anabl. *(erbyn 2021)*
- Monitro'r effaith a'r defnydd o'n dyraniadau cyllido, gan gynnwys drwy brosesau asesu effaith ffurfiol. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Ariannu'r Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach a'i chymorth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes AU, fel y'i nodir yn y [canllawiau ar gyfer Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach CCAUC](#). *(erbyn 2022)*
- Rheoli llesiant ac iechyd myfyrwyr darparwyr addysg uwch, gan gynnwys prosiectau iechyd meddwl a ariennir, er mwyn gwella profiad y myfyriwr. *(erbyn 2022)*
- Ariannu a rheoli rhaglen [GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith](#) er mwyn blaenoriaethu'r cyfleoedd profiad gwaith a ddarperir i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes AU, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yng nghynllun busnes GO Wales. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Monitro'r gwaith o weithredu [Codau Ymarfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil \(REF\)](#) er mwyn sicrhau tegwch a chynhwysiant wrth ddatblygu'r cyflwyniadau REF. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Ariannu prentisiaethau lefel uwch a monitro'r gwaith o recriwtio a chadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar brentisiaethau gradd, a'u llwyddiant ar y prentisiaethau hyn. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cynorthwyo sefydliadau i ariannu Bwrsariaethau Meistr Ôl-raddedig a Addysgir ar gyfer myfyrwyr 60 oed a hŷn. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*

Amcan 2:
Rydym yn rheoleiddio: i sicrhau cyfle cyfartal a deilliannau cyfartal ym maes addysg uwch.

Blaenoriaethau tymor byr

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cymeradwyo neu beidio â chymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad a gyflwynir i ni er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Gwerthuso gweithgareddau a gwasanaethau cynlluniau ffioedd a mynediad er mwyn nodi a hyrwyddo'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau cyfle cyfartal a deilliannau cyfartal. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Ymyrryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, lle'n bosibl, yn unol â'n dyletswyddau statudol ar gyfer rheoleiddio, gan gynnwys o dan [ddeddfwriaeth Atal a Deddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#). *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Defnyddio ein prosesau sicrhau blynyddol³ i wella'r perfformiad mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys drwy'r ffyrdd canlynol:
 - Adolygiad risg sefydliadol
 - Ymweliadau adolygu sicrwydd sefydliadol
Ffurflenni sicrhau blynyddol. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Adolygu cynlluniau cydraddoldeb strategol darparwyr addysg uwch a data perthnasol er mwyn llywio ein prosesau asesu risg a sicrhau, ein hamcanion cydraddoldeb strategol ein hunain ac er mwyn herio'r perfformiad yn y maes hwn. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*

³ Mae'r holl brosesau hyn yn gofyn am sicrwydd o ran agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, fel sicrhau ystyriaeth briodol o amrywiaeth Corff Llywodraethu, monitro perfformiad yn erbyn targedau ehangu mynediad a deilliannau dysgwyr. Gallai diffygion yn y meysydd hyn olygu y bydd angen i CCAUC gymryd camau unioni.

Amcan 3:

Rydym yn cydweithio: i weithio mewn partneriaeth i ddylanwadu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes addysg uwch a'u hyrwyddo.

Blaenoriaethau tymor byr

Byddwn yn gwneud y canlynol

- Gweithio gyda darparwyr addysg uwch i sicrhau camau gweithredu ar fynd i'r afael â bylchau cyflog⁴ (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Herio darparwyr addysg uwch ynghylch bylchau cyrhaeddiad myfyrwyr⁵ a chamau gweithredu i wella cyrhaeddiad gwahaniaethol⁶. (*erbyn 2021*)
- Cefnogi darparwyr addysg uwch yn eu hymateb i waith ymchwil a chyhoeddiadau perthnasol, gan gynnwys deunydd gan [Llywodraeth Cymru](#), y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#), [Universities UK](#), [Advance HE](#) ac eraill. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu [Datganiad Polisi CCAUC ar Lesiant ac Iechyd mewn AU](#), gan gynnwys datblygu cynlluniau gweithredu ategol a gynlluniwyd ar y cyd ar gyfer staff a myfyrwyr. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Hyrwyddo a rhannu arfer effeithiol mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer staff a myfyrwyr mewn addysg uwch. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Hyrwyddo gwerthoedd y [Concordat Datblygu Ymchwilwyr](#), sy'n annog prifysgolion yng Nghymru i lofnodi'r Concordat a chreu cynlluniau gweithredu a fydd yn ymwreiddio egwyddorion gyrfaedd a gefnogir ar draws y sector. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Adolygu strategaethau llesiant ac iechyd a monitro'r cynnydd. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Archwilio a chyhoeddi canllawiau ac arfer effeithiol ar gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn addysg uwch, gan gynnwys fel y mae hyn yn berthnasol i staff a myfyrwyr AU. (*erbyn 2020*)
- Cyhoeddi canllawiau ac astudiaethau achos arfer da ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ac adolygu a monitro'r cynnydd. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Universities UK, Advance HE a phartneriaid eraill i gyfrannu at eu strategaethau a'u cynlluniau a datblygu ein hymrwymiaidau i

4 [A yw Cymru'n Decach 2018](#), t132

5 [A yw Cymru'n Decach 2018](#), t8

6Ar draws nodweddiad gwarchoddedig a meysydd economaidd-gymdeithasol

gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys mynd i'r afael â VAWDASV. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)

- Monitro a herio darparwyr addysg uwch ar gydraddoldeb rhywiol a chyfranogiad mewn pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) a phynciau eraill lle y gwyddys bod angydraddoldebau rhywiol.⁷ (*erbyn 2022*)
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar y gwaith o adolygu a gweithredu [Dyletswydd Cydraddoldeb diwygiedig y Sector Cyhoeddus](#) (PSED). (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Herio a chynorthwyo sefydliadau ar amrywiaeth eu cyrff llywodraethu. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)

DRAFT

⁷ Data tueddiadau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Amcan 4:

Rydym yn gweithredu'n effeithiol:i sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn fel sefydliad.

Wrth ddatblygu Amcan 4, mae CCAUC wedi cydweithio â Grŵp Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru⁸ i sefydlu'r blaenoriaethau ar y cyd sy'n cyd-fynd ag amcanion hirdymor drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Yn ogystal, mae gan CCAUC amcanion penodol hefyd.

* Blaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Llywodraeth Cymru

** Blaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Cyrff Cyhoeddus Cymru

Blaenoriaethau tymor byr

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod CCAUC yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Lleihau bylchau cyflog, ac yn sicrhau data cywir ar draws y sector cyhoeddus sy'n galluogi dadansoddiad. (ar draws nodweddion gwarchoddedig)* a chyhoeddi cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog a nodir. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Gwneud cynnydd ar ofynion llythyr cylch gwaith CCAUC sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys llesiant ac iechyd, ac iechyd meddwl. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cynyddu amrywiaeth y gweithlu, a byddwn wedi alinio ein hadroddiadau data cyflogaeth ein hunain i gyd-fynd â rhai Llywodraeth Cymru o ran fformat a dyddiadau adrodd (Erbyn 2022) * ac erbyn 2024, bydd gennym dystiolaeth o sut gallwn estyn allan i grwpiau lleiafrifol a'r rheini sy'n byw mewn tldi i gael cyflogaeth gyda ni*. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cael tystiolaeth drwy ddata monitro cydraddoldebau fod ein hymgysylltiad cymunedol yn cynrychioli cyfrifiad poblogaeth cenedlaethol 2021 ar gyfer Cymru*. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Sicrhau bod data caffael ar waith ac y bydd yn dangos amrywiaeth systemau caffael*. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Datblygu cynllun gweithredu CCAUC er mwyn ymwreiddio rhai o egwyddorion craidd y Concordat Datblygu Ymchwilwyr, gan gynnwys cynyddu ymgysylltiad ag ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a chefnogi hyfforddiant ar gyfer ymchwilwyr drwy gydol eu gyrfa. *(trwy gydol cyfnod y strategaeth)*

⁸Aelodaeth o'r Grŵp Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (HEIW), Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

- Dangos systemau gweithredol a ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu deall a'u parchu wrth gyrchu a derbyn gwasanaethau**. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Cyfrannu at ddatblygu'r [Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#), gan gynnwys sut mae'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth. (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Adolygu Datganiad ac amcanion Llesiant CCAUC (*trwy gydol cyfnod y strategaeth*)
- Gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n ymwneud â CCAUC: [Mynd i'r afael ag Aflonyddu Hiliol: Prifysgolion yn cael eu Herio](#).

DRAFT

Wrth ddatblygu ein deilliannau tymor byr, ein cerrig milltir tymor canolig a'n uchelgeisiau hirdymor, rydym wedi cydweithio â Grŵp Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru⁹ i sefydlu blaenoriaethau ar y cyd sy'n alinio ag amcanion hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, fel y nodwyd yn ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol drafft.

* Blaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Llywodraeth Cymru

** Blaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Cyrff Cyhoeddus Cymru

Deilliannau tymor byr	Cerrig milltir tymor canolig	Uchelgeisiau hirdymor
<p>erbyn diwedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu systemau i ymgysylltu â chymunedau ac i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu anghenion unigolion** Gwella'r sylfaen dystiolaeth er mwyn cefnogi gwaith monitro a herio uwch Alinio ein hadroddiadau data cyflogaeth ein hunain i gyd-fynd â rhai Llywodraeth Cymru o ran fformat a dyddiadau adrodd** Cydweithio i gynyddu'r amrywiaeth ym mhoblogaethau'r myfyrwyr a'r staff (yn cynnwys CCAUC, aelodaeth Cyrff Llywodraethu a staff darparwyr addysg uwch) Sicrhau data cywir ar draws y sector cyhoeddus sy'n darparu dadansoddiad 	<p>erbyn 2025 byddwn yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dangos trwy ddata monitro cydraddoldebau fod ein hymgysylltiad cymunedol yn cynrychioli cyfrifiad poblogaeth cenedlaethol 2021 ar gyfer Cymru** Dangos systemau gweithredol a ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu deall a'u parchu wrth gyrchu a derbyn gwasanaethau** Sicrhau bod dysgu arfer gorau a rennir yn dylanwadu'n weithredol ar wasanaethau darparu er mwyn diwallu anghenion unigolion** Gwella cyfraddau cadw, deilliannau dysgu a llwyddiant grwpiau â nodweddion gwarchoddedig Gwella gwaith adrodd a chynyddu'r cymorth ar gyfer cam-drin, aflonyddu, 	<p>mewn 15+ blwyddyn, byddwn yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfrannu at wireddu gweledigaeth Strategaeth Gorfforaethol CCAUC ar gyfer 'addysg uwch gynaliadwy, hygyrch, ragorol ar lefel ryngwladol yng Nghymru' Cyfrannu at sicrhau bod 'anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn cael blaenoriaeth wrth gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru' Cyfrannu at sicrhau bod 'dulliau ar waith i ymgysylltu'n weithredol â chymunedau amrywiol Cymru, gan gynnwys unigolion sy'n rhan o'n cymunedau yn y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud gyda'n gilydd'*** Cyfrannu at sicrhau fod 'Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol'

⁹ Aelodaeth o'r Grŵp Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

<p>(ar draws nodweddion gwarchoddedig)**</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella data caffael a fydd yn dangos amrywiaeth systemau caffael** 	<p>troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Dangos sut rydym yn estyn allan i bobl â nodweddion gwarchoddedig a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn codi'r proffil cyflogaeth gyda ni** Sicrhau bod datgelu gwybodaeth yn rhan o ddiwylliant y sefydliad, bod staff yn deall pam y caiff data ei gasglu, a sicrhau mai dim ond y data angenrheidiol caiff ei gasglu (GDPR)** Sicrhau bod egwyddorion caffael a rennir yn weithredol, a bod tystiolaeth o hyn** 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfrannu at ddileu cam-drin, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth' Cyfrannu at sicrhau bod 'cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampI'* Cyfrannu at sicrhau y bydd 'ein sefydliadau'n adlewyrchu amgylchedd teg a chynhwysol, lle y bydd yr holl gyflogeion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu cael yr un cyfleoedd i gyflawni eu potensial o fewn y sefydliad'** Sicrhau bod systemau caffael yn gyrru cydraddoldeb.
---	--	---

DRAFT

Mae'r ffynonellau data canlynol y byddwn yn eu defnyddio i fonitro cynnydd yn ddangosol yn hytrach na'n rhestr gynhwysfawr.

- Llywodraeth Cymru, Universities UK, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chyhoeddiadau perthnasol eraill
- [Data HESA](#) (wedi'i fonitro ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig lle'n bosibl)
- Data cydraddoldeb ac amrywiaeth cyflogaeth a gweithlu ar lefel sefydliadol
- Data ar fwch cyrhaeddiad ar lefel sefydliadol
- Data STEM ar lefel sefydliadol, cenedlaethol a'r DU
- Data cyflogaeth CCAUC
- Data corff llywodraethu sefydliadol
- [Data ystadegol AU Uwch](#)
- [Mesurau Cenedlaethol CCAUC](#)
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Llywodraeth Cymru

Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024, rydym wedi ystyried y ddeddfwriaeth a'r polisiau canlynol:

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#) (y Ddeddf) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED)

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (Hydref 2010) yn gosod dyletswydd ar gyrff yn y sector cyhoeddus, fel CCAUC. Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymdrin â naw nodwedd warchoddedig ¹⁰

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011) yn seiliedig ar ddyletswyddau penodol sydd wedi'u cynnwys o fewn [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Dyletswyddau Statudol\) \(Cymru\) 2011](#). Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

¹⁰ Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil (o ran y gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu), hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rheini sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy ddatblygu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau bob dydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn nyluniad polisiau a'r gwaith o gyflawni gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn cyflawni deilliannau gwell i bawb.

[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn annog cyrff cyhoeddus, fel CCAUC, i feddwl mwy am yr hirdymor, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, i geisio atal problemau ac i sicrhau dulliau gweithredu mwy 'cydgysylltiedig' ym mhopeth y maent yn ei wneud.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, mae CCAUC wedi ystyried goblygiadau nodau llesiant y Ddeddf, ffyrdd o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Nod [Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) (VAWDASV) yw gwella'r gwaith o atal, amddiffyn a chynorthwyo'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol ac i wella ymateb y sector cyhoeddus i'r pethau hyn. Nid yw CCAUC na Sefydliadau Addysg Uwch yn 'awdurdodau perthnasol' o fewn y Ddeddf, ond mae'r Ddeddf yn nodi 'y gall CCAUC gyhoeddi canllawiau i gyrrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch ar sut gall y cyrff gyfrannu at y gwaith o gyflawni diben y Ddeddf hon'.

Ystyriaethau polisi

- Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i lywio gan yr ystyriaethau polisi canlynol:
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [A yw Cymru'n Decach? 2018 \(2018\)](#)
- Llywodraeth Cymru [Llesiant Cymru 2017-18 \(2018\)](#)
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Rhyddid Mynegiant: canllaw i ddarparwyr addysg uwch ac undebau myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr \(2018\)](#)
- Llywodraeth Cymru [Cenedl Noddfa – Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches \(2019\)](#)
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Mynd i'r afael ag Aflonyddu Hilliol: Prifysgolion yn cael eu Herio \(2019\)](#)
- [Datganiad Polisi Iechyd a Llesiant mewn Addysg Uwch CCAUC \(2019\)](#)
- Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2016-2020
- Ystyriaethau yn llythyr cylch gwaith CCAUC sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Sganio'r gorwel

Bydd y gwaith o weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystyried y datblygiadau canlynol:

Yn ystod cyfnod y strategaeth, rhwng 2020-2024, bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu ac yn cyhoeddi'r adolygiadau ymchwil canlynol:

- comisiynu gwaith ymchwil i archwilio'r opsiynau ehangach, gan gynnwys sut gallent gynnwys confensiynau'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y confensiwn ar hawliau pobl anabl, yng nghyfraith Cymru
- cynnal adolygiad o Reoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb (Cymru) 2011 a sut gellid eu cryfhau
- adolygu'r dystiolaeth o anghydraddoldeb yng Nghymru (Llywodraeth Cymru) y bwriedir ei chyhoeddi erbyn diwedd 2019
- adolygu adroddiad a map ffordd cam dau ar gydraddoldeb rhywiol ([Chwarae Teg](#)), y bwriedir eu cyhoeddi erbyn diwedd 2019

DRAFT